

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Cynllunio

Dyddiad: 1 Medi 2021

Rhif Union: 01824 712589

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CYNLLUNIO, DYDD MERCHER, 8 MEDI 2021** am **1.30 PM** yn **TRWY GYNHADLEDD FIDEO**

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU (Tudalennau 5 - 6)

2 DATGANIADAU O FUDDIANT (Tudalennau 7 - 8)

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 9 - 16)

Cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2021 (copi i ddilyn).

CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU (EITEMAU 5-10)

5 CAIS RHIF 01/2020/0315/PF . HEN YSBYTY GOGLEDD CYMRU, DINBYCH (Tudalennau 17 - 110)

Ystyried cais i drawsnewid, adnewyddu, dymchwel yn rhannol ac addasu'r prif adeiladau rhestredig at ddefnydd preswyl (34 annedd); dymchwel cartref nyrsys, marwdy, ward ynysu, Ward Aled ac adeilad yr hen waith nwy; datblygu tir o fewn tiroedd yr ysbyty at ddefnydd cymysg i alluogi datblygu, yn cynnwys hyd at 300 o unedau preswyl a hyd at 1114 metr sgwâr o unedau busnes (yn cynnwys cymysgedd o ddefnydd A1, A2, A3, B1, C1, C2, C3, D1 a D2); lleoli Clwb Criced Dinbych ac adeiladu mynediad a gwneud y gwaith draenio a gwaith arall cysylltiedig (copi ynghlwm).

6 CAIS RHIF. 02/2021/0327/ PF - PENDORLAN, FFORDD LLANFAIR RHUTHUN (Tudalennau 111 - 142)

Ystyried ceisiadau i godi estyniadau ac i wneud addasiadau i annedd yn cynnwys adeiladu waliau cynnal, wal flocliau flaen a gwaith cloddio i greu lle parcio gwastad yn y ffrynt yn cynnwys tynnu gwrych (rhannol ôl weithredol) (copi ynghlwm).

7 CAIS RHIF. 1 THE DELL A THIR Y TU ÔL I THE DELL, PRESTATYN LL19 8SS . (Tudalennau 143 - 170)

Ystyried cais i amrywio amod rhif 2 o ganiatâd cynllunio rhif 43/2018/0900 i ganiatáu newidiadau i leoliad y rhandy preswyl a chodi lefel y llawr gorffenedig (copi ynghlwm)

8 CAIS RHIF. 45/2020/0844/PF - SANDY LODGE, 83 FFORDD DYSERTH, Y RHYL (Tudalennau 171 - 196)

Ystyried cais i newid ac addasu cartref nyrsio i gynnwys estyniad gyda dwy ystafell wely ychwanegol ar y llawr cyntaf, dau set o risiau wedi'u hamgáu a fydd yn allanfeydd tân, a chanopi mynediad (copi ynghlwm).

9 CAIS RHIF. 45/2021/0040/ PF – MARCHNAD Y FRENHINES, SUSSEX STREET, Y RHYL (Tudalennau 197 - 268)

Ystyried cais cynllunio Hybrid (Manylion llawn ac amlinelliad) ar gyfer ailddatblygu 0.93ha o dir a elwir yn Farchnad y Frenhines i gynnwys yr elfennau canlynol: Manylion Llawn:- dymchwel yr adeilad Bright Spot ar gornel Rhodfa'r Gorllewin a'r Stryd Fawr- Dymchwel 2-6 y Stryd Fawr - Codi Neuadd Fwyd a Marchnad - Codi lle digwyddiadau amlbwrpas - Codi gorsaf drydan - Cadw ac ailwampio adeilad Siambrau'r Frenhines sy'n wynebu Sussex Street - Cadw'r maes parcio dros dro yn Queen Street - rhywfaint o dirlunio meddal/caled dros dro a pharhaol, Amlinelliad: Datblygu adeiladau Dosbarth 3 (rhandai preswyl), Dosbarth A1 (manwerthu), Dosbarth A2 (ariannol a phroffesiynol), Dosbarth A3 (bwyd a diod), Dosbarth B1 (swyddfeydd), Dosbarth D1 (di-breswyl), Dosbarth D2 (cynnull a hamdden). Mae'r holl faterion manwl ar gyfer yr elfennau hyn wedi'u neilltuo ar gyfer ceisiadau'r dyfodol (copi ynghlwm)

10 CAIS RHIF. 45/2021/0265/ PF – CYN SAFLE'R GANOLFAN HAUL, RHODFA'R DWYRAIN, Y RHYL, LL18 3AQ (Tudalennau 269 - 296)

Ystyried cais i newid defnydd dir yn atyniad twristiaid 'SkyFlyer Balloon' yn cynnwys gosod plattform concriid, winsh fowntiedig a'r 'Skyflyer Balloon' a'r fasedg gysylltiedig, codi toiled ac adeilad derbynfa, tirlunio a'r gwaith cysylltiedig (copi ynghlwm).

11 GWYBODAETH YCHWANEGOL (Tudalennau 297 - 318)

Derbyn adroddiad yn hysbysu'r aelodau nad yw'r Cyngor wedi derbyn gwrthwynebiad i Orchymyn Diogelu Coed dros dro rhif 6 (2021) tir yng Nghilgoed, St David's Lane, Dinbych (copi ynghlwm).

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cynghorydd Joe Welch (Cadeirydd)

Joan Butterfield
Ellie Chard
Ann Davies
Peter Arnold Evans
Alan Hughes
Brian Jones
Tina Jones
Gwyneth Kensler
Christine Marston
Melvyn Mile

Bob Murray
Merfyn Parry
Paul Penlington
Pete Prendergast
Peter Scott
Tony Thomas
Julian Thompson-Hill
Emrys Wynne
Mark Young

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned